

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion o'r cyfarfod yn Swyddfeydd y Cyngor Bwrdeistref Sirol,
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach
ddydd Mawrth 25 Gorffennaf 2017 am 5:00pm.

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. S. Fox – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

A. Cox	S. Morgans
M. Diamond	E. Webster
L. Jones	D. Williams
W. Lewis	

Swyddogion oedd yn bresennol:

Mr P. J. Mee – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd
Mr P. Nicholls – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Ymglyfreitha, Cynllunio a'r Amgylchedd, Cymuned a Phlant
Mr G. Black – Rheolwr Cymunedau Diogel a Thrwyddedu
Mr L. Morgan – Rheolwr Cynorthwyol Materion Trwyddedu

12. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol
S. A. Bradwick, S. Powderhill, a T. Williams.

13. DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD – Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau
o fuddiant personol ynglŷn â'r agenda.

14. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A DEDDF TROSEDD AC ANHREFN

PENDERFYNWYD – I'w nodi: Pan fydd Aelodau'n ystyried y materion
trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i
beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar
Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

15. COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor
Trwyddedu, a gafodd ei gynnal ar 27 Mehefin 2017, yn rhai cywir.

16. CYFLWYNIAD

Cafodd yr Aelodau o'r Pwyllgor Trwyddedu eu cyflwyno i Swyddog
Trwyddedu newydd yr heddlu, y Cwnstabl Kevin Scannell.

17. TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A RODDWDYD O DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a roddwyd yn ystod y cyfnod 12 Mehefin 2017 tan 9 Gorffennaf 2017. Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys.

18. CYFLWYNO PRAWF GWYBODAETH GYRWYR – YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM EI WEITHREDU

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – yr wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Prawf Gwybodaeth Gyrwyr ar gyfer ymgeiswyr am drwydded yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat yn y Fwrdeistref Sirol.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Cabinet, ar 16 Chwefror 2017, wedi cymeradwyo gweithredu Prawf Gwybodaeth Gyrwyr Cerbydau Hacni (Tacsis) / Cerbydau Hurio Preifat ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a'r diwygiad angenrheidiol i'r polisi presennol, a bod y prawf gwybodaeth yn dod i rym ar 1 Medi 2017. Cafodd rhagor o wybodaeth ei rhoi i'r Aelodau am sut bydd y profion yn cael eu cynnal, cost pob prawf, a'r sgôr pasio disgwylidig ar gyfer rhoi tystysgrif pasio.

Ar ôl trafod yr wybodaeth ddiweddaraf, **PENDERFYNWYD**:-

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Nodi'r cynnydd o ran gweithredu penderfyniad y Cabinet a gafodd ei wneud ar 16 Chwefror 2017.

19. GWAHARDD AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD – bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 12 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Mae eglurder wrth reoli busnes yr Awdurdod Lleol yn ddymunol; serch hynny, bydd data personol yn ymwneud ag ymddygiad a gallu unigolion yn cael eu trafod a'u hystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

20. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 – TRWYDDED YRRU CERBYD HACNI / CERBYD HURIO PREIFAT – CEISIADAU AC ADNEWYDDU

Yn ei adroddiad, eglurodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – y manylion am gais am adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat a chais am adolygu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

1. Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr BTGN o Aberpennar ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am adnewyddu Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

PENDERFYNODD y Pwyllgor wrthod y cais oherwydd roedd Mr BTGN o Aberpennar wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

2. Yn dilyn y cyfarfod ar 27 Mehefin 2017 (cofnod 8 (5)), pan benderfynodd y Pwyllgor ohirio penderfynu cais Mr MAM o Gaerdydd tan gyfarfod priodol nesaf y Pwyllgor Trwyddedu, yn ei absenoldeb, cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad ar gyfer adolygu rhoi Trwydded Yrru Cerbyd Hacni.

Roedd Mr MAM o Gaerdydd yng nghwmni ei wraig. Â chaniatâd y Cadeirydd, cafodd y Pwyllgor wybodaeth atodol gan yr ymgeisydd i ategu ei adolygiad.

Ar ôl trafod yr wybodaeth ger eu bron, yn ogystal â'r wybodaeth ategol a gafodd ei rhoi yn ystod y cyfarfod, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ddirymu'r drwydded oherwydd bod Mr MAM o Gaerdydd wedi methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn berson addas a phriodol i gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni / Cerbyd Hurio Preifat.

21. CRYNODEB O FATERION GORFODI

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – ei adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 17 Mehefin 2017 tan 16 Gorffennaf 2017. Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** nodi'r cynnwys, a oedd wedi ei roi er gwybodaeth yn unig.

22. CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A RODDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG

Yn ei adroddiad, rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – grynoded o Drwyddedau a/neu Gofrestriadau a roddwyd o dan ddarpariaethau Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod

12 Mehefin 2017 tan 9 Gorffennaf 2017 a **PHENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad.

A. S. Fox
Cadeirydd

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50pm.